# Rhyfel Cartref Lloegr

## sut y dechreuodd


Crewyr Cadw: Comics



Cyfarwyddwr Celf: Nick Price
Inclwr: Lewis Macaulay
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited

# Rhyfel Cartref Lloegr, sut y dechreuodd...








Madrid, Sbaen, 1623
Mae'n bleser gen i gyflwyno'r Tywysog Siarl o Loegr ...
Gwnaf i ddim briodi'r Protestant dieflig hwn, dw i'n ei gasáu ...
Eich Mawrhydi , mae'n anrhyded d cwrdd â chi.
Ydy, ydy, a chithau'r un peth...
Ynglŷn â phriodi fy chwaer ... Os ydych am ei phriodi, bydd yn rhaid i chi drosi i Gatholigiaeth Rufeinig... a rhaid atal erledigaeth Catholigion yn Lloegr, a bod yn oddefgar tuag atynt.
Ni fyddai Eglwys Loegr na'r Senedd erioed yn cytuno i'r telerau hyn!
Dyma yw fy nhelerau ... Dydw i ddim yn credu yn eich crefydd Anglicanaidd!
Pa! Sut feiddian nhw fy ngwrthod?
Buckingham, i'r llongau! Rydym yn dychwelyd i loegr. Byddan nhw'n difaru am wneud hyn!


Siambrau Brenin Iago I yn Llundain.
RHYFEL!
Rwy'n mynnu ein bod yn mynd i ryfel yn erbyn y Sbaenwyr, fy nhad! Ni allant siarad â choron Lloegr yn y ffasiwn ffordd!
Ewyllys Duw ydyw eich bod yn frenin!
Beth yw eich safbwynt chi ar hyn, Buckingham?
Mi fydd yn ddrud, a bydd angen i ni ei roi gerbron y Senedd a chodi trethi.
Yn enw Brenin Iago I, rydym yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn
Fe godwn drethi i dalu am filwyr ac arfau...
Dydyn ni ddim yn cytuno ar ymladd rhyfel yn erbyn Sbaen!
Dydyn ni ddim yn cytuno i hyn!
Yn enw Duw, mae'r brenin wedi siarad!
FI YW'R BRENIN!
Mae'r sesiwn hon wedi'i diddymu! Ac rwy'n eich gorchymyn i gyd i adael y Senedd! Fe godaf drethi fel y mynnaf!
Ie, beth ddywedodd e!


Yn 1625, roedd Brenin Iago I wedi marw. Y Tywysog Siarl oedd bellach yn Frenin Siarl I dros Loegr, yr Alban ac Iwerddon.*
Rwyf wedi fy newis yn ôl ewyllys Duw!
Ar risiau eglwys gadeiriol Notre Dame ym Mharis, ar 1 Mai 1625, gwnaeth Siarl I briodi Henrietta Maria o Ffrainc.
Cofiwch y fargen y cytunoch iddi er mwyn priodi fy merch!
Llongau! Gwnaethoch addo llongau o Loegr!
Daeth Henrietta Maria o Ffrainc yn Frenhines Mair, brenhines Lloegr, yr Alban ac Iwerddon.
Ni wnaf anfon unrhyw longau o Loegr i'r Brenin Harri IV o Ffrainc!
Cefais fy newis yn ôl ewyllys Duw!
Mae Ffrainc wedi cyhoeddi rhyfel yn ein herbyn!
Pa fargeinion ydych chi wedi mynd yn groes iddynt nawr?
Rwyf wedi'ch casglu yn ôl yma heddiw i ddweud wrthych y byddwn yn codi trethi i dalu am y rhyfel yn erbyn Ffrainc!
Rydych yn dal yn ymladd rhyfel yn erbyn Sbaen! Mae'r hyn rydych yn ei wneud yn anghyfreithlon!
Rwyf wedi dweud wrthych o'r blaen, cefais fy newis yn ôl ewyllys Duw! Rwy'n gwneud fel y mynnaf! Rwy'n diddymu'r Senedd! Rwy'n eich gorchymyn i gyd i adael!





Heb y gallu i godi arian o'r Senedd ar gyfer cynnal rhyfel yn Ewrop yn y dyfodol agos, gwnaeth Siarl gymodi â Ffrainc a Sbaen. Ymddangosai fod popeth yn iawn hyd nes 1637, pan benderfynodd y Brenin Siarl I fod angen i'w ddeiliaid yn yr Alban newid y math o Gristnogaeth yr oeddent yn ei ddilyn...



Crewyr Cadw: Comics



# Dysgu pellach i bawb

Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**